TAFLEN GYNGOR

# Rheoli Ymylon Ffyrdd ar gyfer Peillwyr


© Tanya St. Pierre/Cumbria Wildlife Trust

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddylunio ar gyfer awdurdodau lleol sy'n rheoli ymylon ffyrdd ar gyfer bywyd gwyllt a'r gymuned leol, gyda ffocws penodol ar ddarparu ar gyfer anghenion peillwyr, yn enwedig o fewn B-Lines.

Mae cysylltu ein tirwedd trwy goridorau cynefin sy'n llawn blodau gwyllt yn dipyn o gamp. Mae'n gofyn inni edrych ar reolaeth bob gofod bywyd gwyllt. Efallai mai'r cam mwyaf rhesymegol ar gyfer creu B-Lines yw adfer natur ar hyd ein rhwydweithiau teithio, ac mae hynny'n cynnwys ymylon ffyrdd, sy'n ymdroelli trwy gefn gwlad ac sy'n gallu bod yn nodweddion cysylltiol pwysig ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Mae proffil ymylon ffyrdd a reolir ar gyfer cynefin blodau gwyllt yn tyfu, ond mae llawer o galonnau a meddyliau yn dal ar ôl i'w hennill. Mae diogelwch a thaclusrwydd yn cystadlu â chynefinoedd sy'n gyfeillgar at fywyd gwyllt, ond mae cynghorau ar hyd a lled y DU sy'n treialu ffyrdd arloesol o reoli ymylon ffyrdd a chylchfannau er lles bywyd gwyllt tra hefyd yn ystyried diogelwch ar gyfer defnyddwyr ffyrdd.

## Ymylon ffyrdd


Gall ymylon ffyrdd gynnwys llu o fathau o gynefinoedd yn cynnwys glaswelltir, gwlypdir, gwrychoedd, prysgwydd a choetir. Gall y cynefinoedd hyn feddu ar amrywiaeth o nodweddion sy'n fuddiol i gyfnodau larfaol ac oedolion peillwyr. Gall ymylon ffyrdd fod yn fannau heriol ar gyfer bywyd hwyllt, with llygryddion a tharfu gan draffig yn effeithio ar y rhywogaethau sy'n byw yno. Deliodd adroddiad Buglife gyda'r materion hyn a'r dystiolaeth sydd ar gael amdanynt gan ddod i'r casgliad, oherwydd natur unigryw ymylon ffyrdd a'r cynefinoedd amrywiol y gallent eu cynnig, ei bod dal yn fuddiol i ddarparu cynefinoedd ar gyfer peillwyr arnynt.

Mae rhai ymylon ffyrdd yn well ar gyfer gwaith creu cynefin nac eraill. Dylid blaenoriaethu gwaith ar ymylon ffyrdd lletach ble mae effeithiau traffig yn llai. Os ydych yn cyfoethogi safle gyda hadau blodau gwyllt lleol neu wair gwyrdd, dylech osgoi creu'r cynefin hwn yn yr 1-2 fetr cyntaf ar ymyl y ffordd ble mae graddfeydd gwrthdrawiadau a lefelau halogi ar eu uchaf a ble mae gweithgarwch peillwyr yn aml yn isel. Yn aml iawn, bydd ymylon ffyrdd un ai'n cael eu gor-reoli neu eu tan-reoli. Mae patrymau torri gwair brwdfrydig trwy gydol yr haf yn olygfa gyffredin sy'n gadael dim lle i unrhyw beth flodeuo neu ollwng hadau, tra gall ymylon ffyrdd eraill gael eu hanwybyddu'n llwyr ac, yn y pen draw, gael eu llethu gan unllystyfiant o weiriau a phlanhigion 'ciaidd'.



© Tanya ST. Pierre/Cumbria Wildlife Trust

Mae cyfoeth o adnoddau ar gael ar destun rheoli ymylon ffyrdd. Mae'r ddogfen hon yn drosolwg cryno o'r opsiynau gyda dolenni i'r dogfennau perthnasol, yn ogystal â dadansoddiad o'r hyn y mae cynghorau arloesol yn ei wneud ledled y DU a sut y mae rheolaeth sensitif o ymylon ffyrdd wedi bod o fudd mawr.



Rhwydwaith B-Lines y DU. Map rhyngweithiol ar buglife.org.uk

## B-Lines ac ymylon ffyrdd

Mae B-Lines yn briffyrdd peillwyr, datrysiad ar lefel tirwedd i wrth-droi'r dirywiad mewn pryfed peillio. Maent yn rhedeg ar hyd a lled cefn gwlad Prydain, trwy drefi a dinasoedd, gan redeg o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin gan gysylltu'r cynefinoedd llawn blodau gwyllt gorau sydd gennym ar ôl. O fewn coridorau'r B-Lines rydym yn annog pawb i greu cerrig sarn llawn blodau, yn fawr a bach, er mwyn helpu peillwyr a phryfed eraill i deithio'n ddiogel trwy ein tirwedd. Gall amgylcheddau adeiledig a rhai gaiff eu ffermio neu eu rheoli'n ddwys fod yn anodd iawn i bryfed symud trwyddynt gan nad oes bwyd na mannau gorffwys addas. Mae llawer o bryfed yn methu teithio'n bell iawn ac, o ganlyniad, yn cael eu dal mewn 'ynysoedd' bychain o gynefin addas, llawn blodau gan fethu cytrefu ardaloedd newydd neu ail-gytrefu hen safleoedd. Mae hyn yn golygu y gall cynefinoedd a rhywogaethau fynd yn fwyfwy bregus a thameidiog. B-Lines yw'r ateb hyfryd i gyd-gysylltu'r mannau llawn blodau gwyllt yn ein trefi a'n cefn gwlad er mwyn helpu i atal y dirywiad mewn poblogaethau pryfetach, ac ry'n ni angen eich help chi!

Mae map B-Lines B-Lines - Buglife yn gorgyffwrdd mewn nifer o fannau gydag ymylon ffyrdd llai a llwybrau priffyrdd, sy'n golygu y gellir ychwanegu gwaith cynefin fydd o fudd i beillwyr ar hyd ymylon ffyrdd, yn enwedig o fewn B-Lines, i'r map B-Lines, gan gyfrannu at gysylltu cynefinoedd peillwyr ledled y DU.



Gwenynen Ystor Pen Mawr (*Heriades truncorum*) ar Greulys
© Lucia Chmurova



Peiriant torri a chasglu, Cyngor Angus, B-Lines Strathmore
© Rachel Richards

## Lleihau maetholion

Bydd blodau gwyllt yn tyfu'n well mewn priddoedd sydd â maeth isel, felly wrth reoli ymyl ffordd laswelltog dylai'r pwyslais fod ar leihau'r lefelau maetholion. Os caiff lefelau maetholion eu gostwng yna bydd tyfiant glaswellt yn llai o ganlyniad ac, yn ei dro, mynychder y torri angenrheidiol, a thrwy hynny'n lleihau baich gwaith a chostau. Wrth greu ymylon ffyrdd newydd neu wneud gwaith paratoi'r pridd ar rai sy'n bodoli eisoes, yna bydd sicrhau bod yr haen uchaf o bridd yn cynnwys cyn lleied â phosibl o faeth yn rhoi'r man cychwyn delfrydol. Gall defnyddio swbstrad maeth isel wrth greu ymylon ffyrdd newydd fod yn llwyddiannus iawn wrth greu cynefinoedd llawn blodau. Mae glaswelltir calch a grëwyd ar dorlannau calch ffordd liniaru Weymouth a ddatblygwyd yn 2011 bellach yn cynnal dros hanner y rhywogaethau glöynnod byw a geir yn y DU ac mae Highways England yn cyfarwyddo contractwyr i lynu at bolisi Glaswelltir Maeth Isel ar bob cynllun graddfa fawr.

Yn y sefyllfa arferol o reoli ymylon ffyrdd glaswelltog sy'n bodoli eisoes, yna dylid cadw at raglen o dorri a chlirio. Yn y mwyafrif o achosion, caiff torion eu gadael i bydru ar hyd ymylon ffyrdd, ac o ganlyniad fygu blodau gwyllt mân a chyfoethogi'r pridd gan arwain at oruchafiaeth gweiriau, Danadl Poethion a rhywogaethau fel Efwr a Gorthyfail. Bydd sicrhau bod torion gwair yn cael eu clirio o'r ardal sydd wedi'i thorri'n graddol ostwng y lefel maetholion dros amser ac yn caniatáu mwy o le i flodau gwyllt ymsefydlu.

## Amseru torri'r gwair

Mae hyn yn gwbl allweddol er mwyn galluogi'r blodau gwyllt sy'n bresennol i ymsefydlu, blodeuo a gollwng eu hadau. Bydd hyn yn amrywio'n dibynnu ar gyflwr yr ymyl ffordd benodol. Efallai y bydd ymyl ffordd laswelltog iawn angen ei thorri hyd at dair gwaith y tymor, tra bydd ymyl ffordd sydd â llai o laswellt ond angen ei thorri unwaith neu ddwywaith y tymor. Mae patrwm da i lynu ato os ydych yn torri dair gwaith y flwyddyn, fel a ganlyn:

### Toriad a chasglu cyntaf

Dylid gwneud hyn ym mis Mawrth, yn enwedig os yw gaeaf mwyn a gwanwyn cynnar wedi arwain at dyfiant glaswellt. Bydd y toriad cynnar hwn yn arafu'r glaswellt ac yn caniatáu mwy o le a golau i'r blodau gwyllt dyfu. Os oes gennych Gribell Felen ar ymyl y ffordd dylid cynnal y toriad cynnar hwn cyn i'r eginblanhigion ddechrau ymddangos.

### Ail doriad a chasglu

Canol Gorffennaf i ddiwedd Medi. Dylid amrywio amseriad y toriad diwedd haf hwn o flwyddyn i flwyddyn os yn bosibl. Mae toriad cynharach tua chanol Gorffennaf yn dda am gadw statws maeth y safle'n isel, ond nid yw'n caniatáu i rywogaethau sy'n blodeuo'n hwyrach i hedeg. Mae toriad hwyrach yn darparu cysgod ar gyfer infertebratau a bywyd gwyllt arall am fwy o amser ac yn caniatáu i bob rhywogaeth flodeuo a gollwng eu hadau.

### Trydydd toriad a chasglu

Mis Hydref. Mae'n bosibl y bydd y toriad hwn ond yn briodol os cafwyd toriad ganol Gorffennaf a bod y glaswellt wedi tyfu'n sylweddol, gan mai'r bwriad yw arafu tyfiant y glaswellt cyn i'r gaeaf ddod. Gellir cyfnewid hwn gyda'r toriad gwanwyn cynnar.

Pan fyddwch yn trefnu torri gwair hyd ymylon ffyrdd anelwch i wasgaru'r gwaith torri, er enghraifft trwy dorri un ochr i'r ffordd un diwrnod a'r ochr arall wythnos yn ddiweddarach pan fydd yr ardal gyntaf wedi dechrau cynhyrchu blodau newydd. Bydd hyn yn osgoi cael gwared ar ormod o adnoddau blodau o un ardal benodol ar yr un pryd, all olygu y bydd peillwyr yn ei chael yn anodd cael hyd i fwyd.

### Gadewch ardal heb ei thorri

Mae'n syniad da i adael ardal heb ei thorri bob hydref a chylchdroi'r llecyn hwn bob blwyddyn. Er bod torri a chasglu'n dda ar gyfer cynnal statws maeth isel safle, maen nhw'n niweidiol i boblogaethau peillwyr. Bydd sicrhau bod ardal o'r safle'n cael ei adael heb ei dorri'n ystod y tymor bob blwyddyn yn darparu lloches a phorthiant parhaus ar gyfer infertebratau. Dylid cylchdroi'r ardal hon bob blwyddyn fel na fydd yr un ardal yn tyfu'n wyllt a chael ei rheoli gan dwmpathau glaswelltog neu blanhigion fel Gorthyfail, Efwr a Danadl Poethion.

**Mabwysiadu rhaglen dorri a chasglu sensitif yw** conglfaen rheoli ymylon ffyrdd, ac mae nifer o gynghorau wedi arddangos buddiannau'r dull hwn gan gynnwys nid yn unig ddarparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt ond hefyd ostyngiad mewn costau, sêl bendith y cyhoedd a sicrhau llinellau gweld effeithiol.

## Astudiaethau achos

1



Cacynen Gynffongoch (*Bombus lapidarius*) ar y Bengaled
© Rachel Richards

**£100,000**

**O ARBEDION**

### Cyngor Sir Dorset

Yn 2014, cymeradwyodd Cyngor Sir Dorset ddull newydd ar gyfer rheoli rhwydwaith y sir o ymylon ffyrdd er mwyn cwtogi costau'n sylweddol tra'n sicrhau safonau diogelwch a darparu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Fe wnaeth y rhaglen newydd gynnwys lleihau'r nifer o doriadau, casglu'r torion, cyflwyno'r Gribell Felen, ymgysylltu gyda chymunedau lleol a dynodi ymylon ffyrdd o werth cadwraethol ar gyfer rheoli cynefinoedd wedi'u targedu.

Adroddodd y cyngor iddynt wneud arbedion o £100,000 yn 2015/16 a 2016/17, creu ymyl ffordd blodau gwyllt newydd chwe hectar o faint a'u bod wedi cofnodi nifer o rywogaethau arbenigol ar draws eu rhwydwaith o ymylon ffyrdd. Mae hyn i gyd yn cyfrannu at eu 'Cynllun Gweithredu ar gyfer Peillwyr'.

2



Cacynen Gynffongoch (*Bombus lapidarius*) ar Felynydd
© Rachel Richards

**81%**

**YN GWERTHFAWROGI ANSAWDD MANNAU GWYRDD**

### Cyngor Bwrdeistref y *Causeway Coast and Glens*

Arweiniodd y cyngor hwn ar y prosiect 'Peidiwch Torri, Gadewch Iddo Dyfu' a gynhaliwyd dros dair blynedd o 2016 i 2018 gyda chanlyniadau cadarnhaol sylweddol o ran arbed costau, canfyddiadau'r cyhoedd a chofnodi cynnydd yng nghyfoeth y rhywogaethau ar y safleoedd.

Yn ddiddorol iawn, cofnododd y prosiect bod 81% o'r cyhoedd a holwyd wedi datgan bod ansawdd mannau gwyrdd mewn ardal yn effeithio ar eu penderfyniad i ymweld ag ardal ai peidio.

Ymatebodd pobl yn hynod o gadarnhaol i'r patrwm rheoli hwn arweiniodd at ymylon ffyrdd yn llawn blodau gwyllt. Cyhoeddodd y prosiect becyn cymorth ar-lein i awdurdodau lleol eraill ei ddefnyddio
- Don't Mow Let It Grow Toolkit (dontmowletitgrow.com)



Clirio torion © Urban Green Newcastle

## Clirio'r torion

Fel nodwyd eisoes, mae clirio'r torion oddi ar safle'n hanfodol ar gyfer rhoi hwb i gyfoeth rhywogaethau'r safle a lleihau'r casgliad o laswellt wedi'i dorri. Mewn ecosystemau naturiol byddai llysysorion pori'n gwneud hyn ond beth ellir ei wneud yma gyda'r torion? Mae nifer o opsiynau, a gall rhai o'r rhain fod o fudd ariannol i gynghorau:

- **Peiriannau treulio anaerobig:** Mae nifer o gynghorau wedi treialu defnyddio torion o ymylon ffyrdd fel porthiant ar gyfer peiriannau treulio anaerobig. Mae hyn yn atal torion rhag cael eu hanfon i safleoedd claddu sbwriel, mae'n opsiwn sydd â photensial economaidd defnyddiol, yn ogystal â bod yn garbon niwtral. Mae rhwystrau'n dal i fodoli i'r opsiwn hwn fodd bynnag fel offer cynaeafu, costau cludiant a logisteg, sbwriel sy'n bresennol ar hyd ymyl y ffordd, a gofynion trwyddedu oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae treialon wedi'u cynnal yn Swydd Lincoln a Phowys sydd wedi cyflwyno canlyniadau defnyddiol o ran costau ac elfennau ymarferol ac wedi canfod fod torion ymylon ffyrdd yn gwneud porthiant da ar gyfer y peiriannau treulio anaerobig.
- **Ymylon ffyrdd wedi'u mabwysiadu gan y gymuned:** Mae grwpiau lleol wedi ymddangos ar draws y DU sy'n angerddol ynghylch gwarchod y glaswelltir ar ymylon ffyrdd yn eu hardal leol, gan drefnu gwirfoddolwyr, ffermwyr lleol a thrigolion i dorri, casglu a gwaredu glaswellt o leoliadau penodol er mwyn rhoi hwb i fioamrywiaeth. Gall cynghorau annog a chefnogi'r grwpiau hyn a chadw cofnod o'r ymylon ffyrdd sy'n cael eu cynnal gan grwpiau cymunedol er mwyn sicrhau na fydd gwrthdaro o ran eu rheoli.
- **Gadael torion ar y safle:** Ble y bydd yn amhosibl cludo'r torion o'r safle, gellir defnyddio ardal gompostio addas ar y safle. Peidiwch â gorchuddio llystyfiant sensitif gyda'r torion a chofiwch gylchdroi'r ardal gompostio bob blwyddyn.

## Adfer glaswelltir gydag adfywio naturiol

Byddem wastad yn argymell adfywio naturiol fel torri'n llai aml a chlirio'r torion. Yn aml, gall newid syml yn y patrwm rheoli arwain at ganlyniadau godidog, wrth i blanhigion sydd wedi'u torri lawr at y rhosedau gwaelodol flodeuo o'r diwedd, neu wrth i'r gronfa hadau sy'n bresennol eisoes ymateb i'r newid yn y patrwm rheoli a phan mae hadau blodau gwyllt yn egino ac ymsefydlu. Mewn rhai achosion gall gymryd 2-3 blynedd, neu hyd yn oed yn hirach, i weld y newidiadau hyn. Mewn sefyllfaoedd eraill, yn enwedig ble mae lefelau maeth y priddoedd yn isel, gall y canlyniadau ddigwydd bron iawn ar unwaith.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion byddai cyflwyno hadau i roi hwb i amrywiaeth y blodau ar ymyl y ffordd yn ymdrech werth chweil. Dylid ystyried prynu a hau cymysgedd hadau masnachol fel opsiwn olaf, bydd hadau lleol o safle cyfagos o natur debyg wastad yn fwy dymunol gan ei fod wedi cyfaddasu ar gyfer yr amodau lleol a'r bywyd gwyllt lleol.

## Cribell Felen

Ble fo safleoedd yn llawn glaswellt, gellir hau hadau'r Gribell Felen (*Rhinanthus minor*) i helpu i agor y borfa. Mae'r Gribell Felen yn blanhigyn lled-barasitig sy'n gallu effeithio ar dwf cryf gweiriau. Mae'n tynnu peth o'i faetholion trwy dapio i mewn i wreiddiau gweiriau a'u parasitio, a thrwy hynny leihau eu tyfiant a chaniatáu mwy o le a golau ar gyfer blodau gwyllt eraill. O'i adael i ymsefydlu, gall leihau tyfiant glaswellt hyd at 60% ac mae'n lleihau'r angen am dorri'n aml, sy'n golygu y gall dim ond un toriad a chasglu fod yn ddigon i gynnal ymyl ffordd a lleihau'r torion cysylltiedig ddaw yn sgil hynny.

## Gwair gwyrdd

Mae'r broses o ddefnyddio gwair gwyrdd fel dull hadu yn sicrhau y cyflwynir rhywogaethau brodorol, lleol a gall fod yn hynod gost-effeithiol. Mae'r defnydd o wair gwyrdd yn broses amserol iawn, all olygu ei bod yn broses heriol o ran logisteg, ac mae'n bwysig nodi bod defnyddio gwair gwyrdd fel ffynhonnell hadau'n ddim ond darlun cul iawn o ddôl. Fyddwch chi ond yn cael y rhywogaethau sy'n hadu ar yr adeg honno o'r flwyddyn (Gorffennaf) a byddwch yn methu'r rhywogaethau sy'n blodeuo'n gynharach ac yn hwyrach, felly ceisiwch fedi'r ddôl pan fo'r mwyafrif o'r planhigion yn eu blodau. Yn ogystal, mae cynaeafu ychydig yn hwyrach gyda gwialenffustiau gasglu fawr wedi'i gosod yn isel i gasglu unrhyw hadau sydd wedi cwympo yn ddatrysiad da.

Os byddwch yn dewis defnyddio gwair gwyrdd bydd angen ichi glustnodi safle rhoi sy'n gyfoeth o rywogaethau yn yr un ardal leol â'r safle yr ydych am ei adfywio, gyda nodweddion tebyg o ran pH y pridd, math o bridd, hydroleg a phatrwm rheoli. Bydd angen iddo fod oddeutu draean o faint y safle yr ydych yn ei adfer. Mae'r broses, yn gryno, yn gofyn ichi baratoi eich safle newydd yn barod i dderbyn yr hadau rhoi trwy greu daear foel, yna bydd angen torri'r safle rhoi ym mis Gorffennaf neu pan mae hadlestri'r Gribell Felen yn aeddfed ond heb ddisgyn ar lawr. Unwaith ichi ei dorri, bydd angen cludo'r gwair gwyrdd i'r safle newydd a'i daenu yno o fewn ychydig oriau, neu fel arall bydd y gwair yn dechrau twymo a lladd yr hadau. Mae nodyn technegol Natural England yn rhoi rhestr fanwl o'r hyn sydd angen o'r safle rhoi a'r safle derbyn.

## Hadau wedi'u medi o'r maes

Mae gan yr opsiwn hwn nifer o'r un buddiannau â defnyddio gwair gwyrdd ond nad yw'n galw am amserlen mor dynn. Efallai y bydd yn fwy costus yn y pen draw ac mae hyn hefyd yn golygu mai dim ond casgliad cyfyngedig o hadau a gewch o'r safle rhoi os mai dim ond unwaith y byddwch yn ei fedi ond mae gennych opsiwn arall o gynaeafu nifer o weithiau er mwyn dal y rhywogaethau sy'n blodeuo'n hwyrach. Gellir un ai medi a hau'r hadau ar unwaith, neu eu sychu a'u storio os byddwch yn cynaeafu fwy nag unwaith ac yna'u hau ym mis Medi neu Hydref. Dylid dethol safle rhoi yn yr un ardal leol ac sydd â'r un nodweddion â'r safle derbyn, unwaith eto tua thraean o faint y safle derbyn.

Mae nodyn technegol Magnificent Meadows yn cyflwyno mwy o wybodaeth ar baratoi'r tir a'r broses o fedi'r hadau (magnificentmeadows.org.uk).

Mae'r dull hwn yn sicrhau hadau mwy hyfyw gan eu bod yn rhydd o effaith twymo'r gwair gwyrdd wedi'i dorri, mae hefyd yn caniatáu ar gyfer nifer o ymweliadau ac felly gellid medi ystod ehangach o rywogaethau, ac mae'n sicrhau hadau o darddiad lleol sydd wedi cyfaddasu i'r amodau a'r bywyd gwyllt lleol. Fodd bynnag, gall y symiau a fedir amrywio'n sylweddol, mae gadael y gwair yn golygu nad ydych yn trosglwyddo ffyngau buddiol gyda'r hadau ac mae'r dull hwn yn dibynnu ar fonitro'r safle rhoi yn ofalus er mwyn ei gynaeafu ar yr adeg orau posibl pan mae'r hadlestri'n aeddfed.

## Cymysgfaoedd hadau masnachol

Dyma'r opsiwn mwyaf costus a dylid ond ei ddefnyddio os nad yw'r opsiynau eraill yn bosibl. Os nad oes gennych safleoedd rhoi addas gerllaw, neu os ydych wedi methu'r cyfnod delfrydol ar gyfer medi hadau o'r maes neu ddefnyddio gwair gwyrdd, yna efallai mai prynu cymysgfa hadau fydd eich unig opsiwn. Bydd rhaid ichi sicrhau eich bod yn prynu oddi wrth gyflenwr dibynadwy a bod yr hadau o Brydain ac yn cynnwys dim ond rhywogaethau brodorol, priodol.

Bydd llawer o gyflenwyr yn darparu cymysgfaoedd sy'n seiliedig ar y math o bridd ond mae wastad yn syniad da i wirio pa rywogaethau sy'n bresennol a sut y mae'r gymysgedd yn cyfateb gyda'r rhywogaethau sydd yn tyfu'n naturiol yn eich ardal. Byddem yn argymell peidio defnyddio cymysgfaoedd dolydd lliwgar, darluniadol sy'n llawn planhigion unflwydd lliwgar, bydd y rhain yn diflannu'n fuan wrth i'r ddaear foel y maent eu hangen leihau ac nid ydynt mor fuddiol i infertebratau â blodau gwyllt brodorol, parhaol. Maent hefyd yn cyflwyno delwedd ffals o sut y mae ein dolydd brodorol yn edrych, efallai eu bod yn addas ar gyfer plannu mewn trefi ond ddylen nhw fyth gael eu hau fel cymysgedd 'blodau gwyllt' neu gael eu hau'n agos i gynefinoedd sy'n gartref i laswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau brodorol.



Cynaeafu Gwair Gwyrdd © Buglife



Peiriant ysgubo hadau © Christa Nelson



Cynefin nythu ar gyfer gwenyn a gwenyn meirch unig © Liam Olds

## Nodweddion cynefinoedd eraill

Mae ymylon ffyrdd yn cynnig ystod amrywiol o gynefinoedd a nodweddion all gefnogi amrywiaeth eang o beillwyr a darparu'r adnoddau angenrheidiol er mwyn iddynt gwblhau eu cylchau bywyd cymhleth.

### Gadael ardal o laswellt heb ei thorri

Bydd hyn yn darparu lloches yn ogystal â chynefin nythu ar gyfer rhywogaethau cacwn fel y Gardwenynen Gyffredin (*Bombus pascorum*) sy'n gwehyddu ei nyth o wair hir. Mae hefyd yn darparu planhigion bwyd larfaol ar gyfer glöynnod byw glaswelltir, fel Gweirlöyn y Ddôl (*Maniola jurtina*) a Gweirlöyn y Glaw (*Aphantopus hyperantus*). Cofiwch gylchdroi'r ardaloedd y byddwch yn eu gadael yn hir, fel na fydd yr un ardal yn cael ei gadael heb ei thorri am fwy na chwpwl o flynyddoedd. Oni bai bod safle'n dlawd iawn o ran maetholion, bydd glaswellt twmpathog a adewir heb ei dorri'n rhy hir yn troi'n brysgwydd yn fuan iawn.

### Daear foel

Mae daear foel yn nodwedd cynefin hanfodol ar gyfer llawer o beillwyr gan ddarparu llecynnau torheulo ar gyfer glöynnod byw a safleoedd nythu ar gyfer gwenyn unig. Bydd creu crafiadau o ddaear foel ar ymylon ffyrdd nid yn unig yn darparu hyn ond bydd hefyd yn caniatáu ardaloedd o dir agored i hadau blodau gwyllt egino. Bydd eu creu mewn lleoliad heulog ble mae swbstrad meddal fel tywod neu briddoedd clai yn eu gwneud yn addas ar gyfer infertebratau sy'n turio. Dylid osgoi creu daear foel ar ardaloedd sydd â llawer o Ddanadl Poethion, ysgall, dail tafol, neu lwyni mwyar gan y bydd y planhigion hyn yn lluosogi. Dylid osgoi cywasgu'r ardaloedd hyn a'u cadw'n gymharol rydd o lystyfiant bob blwyddyn.

### Prysgwydd olynol

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio'n bennaf ar laswelltir, ond yn aml bydd prysgwydd yn bresennol ar ymylon ffyrdd ac mae'n darparu adnoddau gwych ar gyfer peillwyr, yn enwedig pan gynhelir yr amrywiaeth strwythurol. Mae llawer o rywogaethau o brysgwydd yn darparu planhigion bwyd larfaol a phorthiant ar gyfer rhywogaethau o infertebratau penodol, yn ogystal â blodau agored rhywogaethau fel Drain Duon, llwyni mwyar, Drain Gwyn ac Iorwg sy'n darparu porthiant ar gyfer ystod eang o beillwyr. Gall prysgwydd yn cynnwys helyg, Drain Duon, Drain Gwyn ac Afalau Surion fod yn bwysig iawn yn ystod y gwanwyn, gydag ardaloedd amrywiol o brysgwydd yn darparu dilyniant o borthiant defnyddiol o'r gwanwyn tan ddechrau'r gaeaf. Mae'r rhyngwyneb o brysgwydd a glaswelltir yn darparu microhinsoddau sy'n cynnig lloches a noddfa i beillwyr. Bydd cynnal strwythur amrywiol a llecynnau agored o fewn y prysgwydd, trwy dorri a thocio tua diwedd y flwyddyn, yn darparu cilfachau ecolegol ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau.



Mentyll Coch (*Vanessa atalanta* ) ar Iorwg ym mis Medi © Rachel Richards



© dbgg1979, FLICKR, dan drwydded CC BY 2.0

## Llygredd golau

Elfen sydd ddim yn derbyn cymaint o sylw efallai pan ddaw'n fater o reoli ymylon ffyrdd ar gyfer peillwyr, yw effaith goleuadau. Mae llawer o infertebratau, yn enwedig gwyfynod, chwilod a phryfed, yn cael eu denu gan oleuadau artiffisial, ac mae hyn yn tarfu ar eu symudiadau naturiol yn cynnwys mudo a chwilio am gymar ac yn eu gwneud yn fwy agored i ysglyfaethu, yn enwedig gan ystlumod.

Mae llygredd golau wedi ei gysylltu â'r dirywiad mewn infertebratau, ond mae ein dealltwriaeth o ba mor rymus yw effaith llygredd golau ar infertebratau yn dal i fod yn gyfyngedig, ond rydym yn sicr yn gwybod ei fod yn un o'r amrywiol resymau am y dirywiad mewn infertebratau ac mae angen inni gyflwyno camau i liniaru hyn.

Mae goleuadau, yn naturiol, yn fesur diogelwch pwysig, ond mae camau y gall awdurdodau lleol eu cymryd er mwyn lliniaru'n erbyn effeithiau llygredd golau (gweler 'Lleihau llygredd golau' gyferbyn).

## Darllen pellach ac adnoddau defnyddiol

Plantlife : Managing Grassland Road Verges

Mae Plantlife wedi gwneud gwaith gwych ar ymylon ffyrdd ac maent wedi creu'r canllaw cynhwysfawr hwn sy'n eich arwain trwy asesu'r hyn sydd gennych, rhoi rhaglen reoli briodol ar waith a monitro'r canlyniadau.

Don't Mow Let It Grow (dontmowletitgrow.com)

Mae'r prosiect cyffrous hwn yn cael ei arwain gan Gyngor y *Causeway Coast* yn Yr Alban, er mwyn canolbwyntio ar gadwraeth glaswelltir lled-naturiol dros y tair blynedd nesaf. Mae 'Peidiwch â'i Dorri Gadewch iddo Dyfu' yn brosiect tair blynedd o hyd sy'n canolbwyntio ar gadwraeth glaswelltir lled-naturiol gyda ffocws penodol ar ymylon ffyrdd a glaswelltir amwynder. Mae ganddynt becyn cymorth gwych sy'n rhannu dysg ac adroddiadau o'r prosiect, yn cynnwys nifer o gynlluniau rheoli safle.

### Lleihau llygredd golau

**Naturiol** - Anelwch am dywyllwch naturiol, dylid osgoi golau artiffisial gyda'r nos ble bynnag a phryd bynnag y bo modd.

**Angen** - Dylid ond defnyddio goleuadau artiffisial ble mae pwrpas / angen penodol.

**Amser** - Dylid diffodd goleuadau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio (yn awtomatig gydag amseryddion, synwyryddion, neu â llaw).

**Cyfeiriad** - Dylid cyfeirio goleuadau draw oddi wrth ardaloedd cynefin pwysig h.y., coed, gwrychoedd, a dolydd blodau gwyllt. Bydd gosod gorchuddion ar oleuadau stryd yn helpu i leihau 'gollwng' golau.

**Tonfedd** - Mae'r wyddoniaeth yn newid yn gyflym yn y maes hwn ac nid oes tonfedd benodol o olau sy'n dda ar gyfer pob math o fywyd gwyllt. Yn gyffredinol, dylid osogi LEDs tonfedd fer (UV a Glas) neu osod hidlyddion addas. Mae lliwiau cynnes yn well, ond ddim yn gyffredinol gyfeillgar. Dylid gwneud pob ymdrech i ddefnyddio'r mesurau eraill cyn ystyried y mesur hwn.

R. Richards (2023) Rheoli Ymylon Ffyrdd ar gyfer Peillwyr



Mae Buglife - The Invertebrate Conservation Trust yn gwmni cyfyngedig trwy warant, a gofrestrwyd yn Lloegr yn Allia Future Business Centre, London Road, Peterborough PE2 8AN. Rhif cwmni 4132695. Elusen gofrestredig rhif 1092293. Elusen gofrestredig Yr Alban rhif SC040004.